



CHRISTIAN BRANCH B.Sc., P.G. Dip
Pennaeth Gwasanaeth – Rheoleiddio a Datblygu
Economaidd
Head of Service - Regulation and Economic Development

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Canolfan Fusnes Môn • Anglesey Business Centre
Parc Busnes Bryn Cefni • Bryn Cefni Business Park
LLANGFNI
Ynys Môn • Isle of Anglesey
LL77 7XA

ffôn / tel: [REDACTED]

Gofynnwch am / Please ask for: PMO

E-bost / Email: [REDACTED]

Ein Cyf / Our Ref:

Eich Cyf / Your Ref:

Dyddiad / Date: 24.10.22

Annwyl Syr/Madam,

Awel Y Môr (AyM) Fferm Wynt y Môr
Cyfeirnod Arolygiaeth Cynllunio: EN010112
Cynrychiolaeth Ysgrifenedig Cynghor Sir Ynys Môn - Dyddiad cau 1

Mae Cynghor Sir Ynys Môn (CSYM) yn darparu'r gynrychiolaeth ysgrifenedig a ganlyn mewn perthynas â'r cais gan RWE Renewables ar gyfer Gorchymyn Caniatâd Datblygu (GCD) ar gyfer fferm wynt alltraeth Awel y Môr.

Mae sylwadau CSYM yn ymwneud yn benodol â materion sy'n ymwneud a effeithiau ar y Morlun, Tirwedd a Gweledol ac effeithiau economaidd-gymdeithasol gan gynnwys twristiaeth.

1. Effeithiau ar y Morlun, Tirwedd a Gweledol

Mae 'Land Use Consultants' (LUC) wedi cael eu comisiynu ar ran saith Awdurdod Cynllunio Lleol Gogledd Cymru i roi cynghor ar effeithiau tebygol y prosiect arfaethedig ar y Morlun, Tirwedd ac Effeithiau Gweledol.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yw'r awdurdod arweiniol ar gyfer y comisiwn, a byddant yn cyflwyno 'Archwiliad Fferm Wynt Alltraeth LUC Awel y Môr – Adolygiad o Ddogfennau SLVIA' (Adolygiad LUC) i'r Awdurdod Archwilio ar ran saith Awdurdod Cynllunio Lleol Gogledd Cymru sy'n cynnwys CSYM. Mae CSYM yn cadarnhau bod y cyflwyniad hwn yn ffurfio ei gyngor a'i safbwynt mewn perthynas â materion sy'n ymwneud a effeithiau ar y morlun, tirwedd ac effaith gweledol a dylid cyfeirio atynt gan yr Arolygwyr Cynllunio penodedig.

Dylid nodi bod Adolygiad LUC yn nodi nifer o feysydd lle mae anghytundeb ynghylch asesiad prosiectau o effeithiau sylweddol, ac o'r farn y bydd ardaloedd Awdurdod Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Parc Cenedlaethol Eryri a Sir Ddinbych i gyd yn cael effeithiau andwyol arwyddocaol o ganlyniad i elfennau alltraeth datblygiad fferm wynt arfaethedig Awel y Môr na ellir eu lliniaru ymhellach. Ystyrir yr effeithiau hyn yn groes i Bolisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11, Chwefror 2021), Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (Tachwedd 2019) a Pholisi AMG1 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd.

Mae Asesiad Effaith Morlun, Tirwedd ac Effeithiau Gweledol (SLVIA) sydd yn ffurfio rhan o Dsatganiad Amgylcheddol Awel y Mor yn nodi effeithiau sylweddol ar forlun, y dirwedd dynodedig (AHNE Ynys Môn) a derbynyddion gweledol. Mae'r effeithiau sylweddol a nodwyd yn cynnwys niwed i harddwch naturiol, morlun fel lleoliad i'r AHNE a thair rhinwedd arbennig yr AHNE.

Mae gan Ynys Môn dirwedd o werth uchel, gyda bron yr holl arfordir wedi'i ddynodi'n AHNE. Saif y dirwedd werthfawr hon a'r dreftadaeth gyfoethog o fewn cyd-destun gwledig gan gynnig ymdeimlad o heddwch a llongyddwch gan greu ymdeimlad unigryw ac arbennig o le.

Yn ei hanfod, o fewn ardal sy'n ymestyn o Moelfre i Fiwmares, byddai effeithiau gweledol sylweddol yn cael eu profi i dderbynyddion gweledol fel defnyddwyr Llwybr Arfordir Cymru ac aneddiadau. Rhagwelir effeithiau sylweddol ar gymeriad tirwedd o fewn ardaloedd cymeriad tirwedd a wahaniaethir gan eu perthynas agos â'r arfordir, llawer ohono a ddynodir yn AHNE. Byddai effeithiau sylweddol ar forlun yn effeithio ar leoliad yr AHNE, sy'n bwysig i'w ddynodiad ar yr arfordir.

Er gwaethaf yr ymgeisydd yn cynnwys newidiadau dyluniad i'r cynnig ers y Adroddiad Effaith Amgylcheddol Rhagarweiniol (PEIR), y cydnabyddir sydd wedi lleihau maint y meysydd llorweddol a fertigol a newidiadau canfyddadwy i'r delweddu, ni fu gostyngiad yn nifer neu ystod yr effeithiau sylweddol a ragwelir rhwng yr Adroddiad Effaith Amgylcheddol Rgarweiniol ar Datganiad Amgylcheddol.

Nid yw'n cael ei ystyried gan CSYM y byddai'r cynnig hwn yn gwarchod neu'n gwella harddwch naturiol ac y byddai'n tynnu oddi ar bwrpas y dynodiad yn yr ardal helaeth yr effeithir arno.

Bydd effeithiau sylweddol a ragwelir ar y Morlun yn effeithio ar leoliad AHNE Ynys Môn. Nid yw'n glir bod effeithiau ar y morlun wedi cael eu lleihau neu fod lliniaru dylunio yn effeithiol wrth osgoi effeithiau niweidiol sylweddol.

Mae CSYM wedi bod yn rhan o drafodaethau ar gyfer Cyfraniad Cadwraeth a Gwella Tirwedd i gael ei ddarparu fel rhan o'r prosiect. Ni ystyrir y bydd hyn yn gwrthbwysio effeithiau fel y rhagwelwyd ond mae'n cyflwyno cyfle i welliannau tirwedd sy'n gysylltiedig â harddwch naturiol, nodweddion a rhinweddau arbennig gwaelodlin yr adnodd tirwedd ac yn gydnaws â pholisi Cynllun Morol. Ni fyddai'n gwneud yr effeithiau ar y morlun, y dirwedd a'r effeithiau gweledol a ragwelir yn dderbyniol neu'n llai niweidiol, ond fe'i ystyrir yn hanfodol wrth ystyried yr effeithiau andwyol a ragwelwyd ac yn debygol, pe bai'r GCD yn cael ei gydsynio.

Mae'r CSYM hefyd yn cadarnhau bod LUC hefyd wedi rhoi atebion ar ran saith Awdurdod Lleol Gogledd Cymru gan gynnwys CSYM i'r set gyntaf o gwestiynau ysgrifenedig sy'n ymwneud â materion sy'n ymwneud â Morlun, Tirwedd ac effaith weledol ac y dylai'r rhain hefyd gael eu cyfeirio atynt gan yr Arolygwyr Cynllunio penodedig fel ymateb CSYM i'r set gyntaf o gwestiynau ysgrifenedig.

2. Effaith Economaidd-Gymdeithasol

Mae Dyfodol Cymru yn cydnabod y gall cynlluniau ynni adnewyddadwy a charbon isel ar raddfa fawr greu budd cymdeithasol ac economaidd uniongyrchol i gymunedau lleol ac y dylai datblygwyr archwilio sut y dylid defnyddio gwelliannau seilwaith sy'n gysylltiedig â datblygiad gan y cymunedau sy'n cynnal y datblygiad i ddod â manteision ychwanegol sy'n gysylltiedig â materion nad ydynt yn ymwneud â'r cynllun.

Mae CSYM eisoes wedi rhoi sylwadau yn ei gynrychiolaeth berthnasol o ran materion sy'n ymwneud ag effeithiau economaidd-gymdeithasol. Roedd y rhain yn ymwneud â'r Adroddiad Datganiad Amgylcheddol Cyfrol 3, Pennod 3: Economaidd-gymdeithasol sy'n cyflwyno

canlyniad asesu effeithiau sylweddol tebygol y datblygiad o ran materion economaidd-gymdeithasol gan gynnwys swyddi ac allbwn economaidd.

- ***Sgiliau a Chyflogaeth***

Fel y cadarnhawyd yn flaenorol, mae CSYM o'r farn y dylai Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth amlinellol ar gyfer y prosiect fod yn rhan o'r cais GCD er mwyn nodi'r cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant a fydd ar gael yn lleol ac yn rhanbarthol, gan ddangos a chadarnhau'r manteision lleol posibl sy'n deillio o'r prosiect a sut y byddant yn cael eu gwneud yn fwyaf, hybu a chyflawni.

Mae CSYM yn nodi bod cwestiwn 18.11 o'r set gyntaf o gwestiynau ysgrifenedig yn gofyn i'r ymgeisydd esbonio eu safbwynt mewn perthynas â'r Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth. Mae CSYM hefyd yn nodi bod cwestiwn 18.19 yn gofyn am gadarnhad a fydd y datblygiad yn darparu cyfleoedd a hyfforddiant ychwanegol i Brentisiaethau gyda Choleg Llandrillo Menai a sut bydd modd sicrhau'r rhain.

Ers ein cynrychiolaeth ddiwethaf, mae CSYM yn falch o gadarnhau, yn ystod ei ymgysylltu pellach â'r holl Awdurdodau Lleol perthnasol yn y rhanbarth, bod yr ymgeisydd wedi bod yn gweithio ar sefydlu Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth amlinellol ac wedi bod yn ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol i archwilio cyfleoedd yn yr ardal leol ar gyfer cyfleoedd sgiliau a chyflogaeth a phrentisiaeth. Mae hyn yn cael ei groesawu'n fawr. Mae CSYM o'r farn y dylid sicrhau bod Cynllun Amlinellol ar gael yn ystod archwilio'r cais GCD ac yna'r ddarpariaeth o fewn gofyniad y GCD i'r cynllun manwl terfynol gael ei gymeradwyo.

Mae CSYM yn cadarnhau, o ran drafftio'r cynllun hwn, bod angen cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru, Uchelgais Gogledd Cymru, M-SParc, darparwyr addysg leol (Grwp Llandrillo Menai a Phrifysgol Bangor) ac Awdurdodau Lleol perthnasol (gan gynnwys Timau Datblygu Economaidd).

- ***Cyfleoedd i'r Gadwyn Gyflenwi***

Mae CSYM o'r farn ei bod yn hanfodol bod cwmnïau lleol yn cael gwybod yn gynnar o'r cyfleoedd posibl yn y gadwyn gyflenwi a fydd ar gael yn ystod pob cam o'r prosiect i'w galluogi i gynllunio yn unol â hynny a sicrhau eu bod yn gallu manteisio ar y cyfleoedd a gyflwynir.

Mae CSYM yn nodi bod cwestiwn 18.26 o'r set gyntaf o gwestiynau ysgrifenedig yn gofyn i'r datblygwr am gadarnhad a oes ymrwymiad i gyfran o gontractau i'w darparu trwy gyflenwadau lleol a sut y byddai hyn yn cael ei sicrhau, ei fonitro a'i gyflwyno.

Fel y cadarnhawyd yn flaenorol, mae CSYM o'r farn y dylid sicrhau bod Cynllun Gweithredu Cadwyn Gyflenwi Amlinellol ar gael yn ystod archwilio'r GCD ac yna darpariaeth fel rhan o gofyniad y GCD i'r cynllun manwl terfynol gael ei gymeradwyo. Mae hyn er mwyn sicrhau bod trafodaethau o ran cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi yn digwydd yn gynnar er mwyn sicrhau bod cwmnïau lleol a rhanbarthol yn barod i elwa'n llawn o'r cyfleoedd ddaw yn sgil y prosiect.

Nodir ym Mhennod 3 o'r Datganiad Amgylcheddol (ES) bod y swyddi sy'n debygol o gael eu cynhyrchu yn cynnwys gweithgareddau sy'n gysylltiedig â phorthladdoedd, siartio a gweithredu llongau nad ydynt yn arbenigol a gwaith sifil sy'n gysylltiedig â gosod seilwaith ar y tir. Byddai CSYM yn annog y datblygwr i ystyried y cyfleoedd hyn nawr a nodi faint o'r sgiliau hyn sydd ar gael yn lleol ac yn rhanbarthol er mwyn galluogi pobl a chwmnïau lleol i hyfforddi neu uwchsgilio er mwyn manteisio ar y cyfleoedd hyn. O ystyried y potensial y bydd prosiectau mawr eraill ar y môr yn cael eu cynnal yng Ngogledd Cymru fel Fferm Wynt Alltraeth Mona,

mae CSYM o'r farn bod potensial i gydweithio er mwyn sicrhau bod y manteision economaidd-gymdeithasol posibl yn cael eu gwneud i'r eithaf ar gyfer y rhanbarth.

- **Porthladdoedd Adeiladu a Gweithredol**

Mae CSYM yn cydnabod na fydd manylion o ran porthladd adeiladu/gweithredol a fydd yn hwyluso'r prosiect yn rhan o naill ai'r cais am GCD neu'r Drwydded Forol.

Mae gan y dewis o borthladd y potensial i gynnig manteision economaidd-gymdeithasol mawr i ranbarth Gogledd Cymru ym mhob cyfnod prosiect.

Mae'n cael ei groesawu bod Porthladd Caergybi wedi ei gynnwys ar y rhestr hir o borthladdoedd sydd wedi cael eu nodi fel rhan o'r broses EIA. Porthladdoedd eraill ar Ynys Môn a allai gefnogi rhai rhannau o'r prosiect fyddai Porthladd Amlwch.

Rydym yn ymwybodol bod yr ymgeisydd wedi cynnal astudiaeth porthladd er mwyn cwmpasu gofynion y prosiect yn erbyn yr hyn sydd ar gael a'u bod mewn trafodaethau parhaus gyda Stena Line Ports. Mae CSYM yn annog yr ymgysylltu hwn i barhau ac yn hapus i gyfrannu at unrhyw drafodaethau yn ôl y gofyn.

Ar ben hynny, mae'r Cyngor o'r farn y gallai tir addas sydd wedi ei leoli yn agos at borthladd Caergybi fod ar gael i gefnogi'r gwaith o adeiladu, gweithredu a chynnal prosiect Awel y Môr. Mae CSYM yn hapus i drafod y cyfleoedd hyn ymhellach yn uniongyrchol gyda'r datblygwr er mwyn deall eu gofynion wrth i'r prosiect ddatblygu.

- **Twristiaeth**

Mae Ynys Môn yn gyrchfan unigryw a phoblogaidd i ymwelwyr a phobl leol. Mae'r Ynys yn cynnig heddwch, llonyddwch, antur a phrofiadau ynghyd â golygfeydd ffantastig, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) unigryw yn cwmpasu arfordir cyfan yr Ynys, Parc Geo y Byd UNESCO, Castell Biwmares - safleoedd UNESCO a llu o atyniadau eraill. Mae twristiaeth yn cyfrannu at ffyniant ac ansawdd bywyd lleol yn Ynys Môn.

Ar hyn o bryd mae diwydiant twristiaeth Ynys Môn yn denu dros 1.79 miliwn o ymwelwyr yn flynyddol gyda chyfanswm effaith economaidd o fwy na £362miliwn. Mae'r sector hefyd yn cefnogi tua 4000 o swyddi ar yr ynys ac mae bellach yn un o ddiwydiannau mwyaf Ynys Môn (Adroddiad Tueddiad Terfynol Stêm ar gyfer 2021, CSYM).

Mae Penndo 4 o'r DA Twristiaeth a Hamdden yn dod i'r casgliad y byddai'r effeithiau ar yr economi dwristiaeth yn 'isel' neu'n 'ddibwys'.

Fodd bynnag, mae'r SLVIA a'r LVIA yn nodi bod effeithiau sylweddol yn cael eu nodi i ddefnyddwyr Llwybr Arfordirol Cymru yn adrannau C-F, sy'n cwmpasu Bae Dulas i Bwynt Penmon. Mae effeithiau ar adrannau C, D a rhan o E yn cael eu hystyried yn gymedrol, tra bod effeithiau ar ran ddwyreiniol adran E ac adran F yn gymedrol-fawr. Mae hyn yn adlewyrchu safbwyntiau agosach y cynnig o Phwynt Penmon, ac yn gyson â'r canfyddiadau'n ymwneud â'r safbwyntiau.

Mae hyn yn arwain at bryderon sylweddol ynghylch yr effeithiau negyddol anuniongyrchol posibl y gallair effeithiau tirwedd ac effeithiau gweledol y cynnig eu cael ar Ynys Môn a'r rhanbarth ehangach fel cyrchfan allweddol i dwristiaid yn ogystal ag effeithiau economaidd-gymdeithasol cysylltiedig.

Mae CSYM yn gofyn i'r effaith debygol a gadarnhawyd yn y SLVIA a LVIA gael eu hystyried ymhellach o fewn persbectif effaith economaidd-gymdeithasol gan gynnwys ystyried mesurau lliniaru a / neu wella pellach posibl y gellir eu cynllunio i'r prosiect i leihau effeithiau posibl.

Yn gywir,



Christian Branch

Pennaeth Gwasanaeth – Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd



CHRISTIAN BRANCH B.Sc., P.G. Dip
Pennaeth Gwasanaeth – Rheoleiddio a Datblygu
Economaidd
Head of Service - Regulation and Economic Development

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Canolfan Fusnes Môn • Anglesey Business Centre
Parc Busnes Bryn Cefni • Bryn Cefni Business Park
LLANGFNI
Ynys Môn • Isle of Anglesey
LL77 7XA

ffôn / tel: 01248 752435

Gofynnwch am / Please ask for: PMO
E-bost / Email: PMO@ynysmon.llyw.cymru
Ein Cyf / Our Ref:
Eich Cyf / Your Ref:

Dyddiad / Date: 24.10.22

Dear Sir/Madam,

**Awel Y Môr (AyM) Offshore Wind Farm
Planning Inspectorate Reference: EN010112
Isle of Anglesey County Council Written Representation - Deadline 1 (D1)**

The Isle of Anglesey County Council (IACC) provides the following written representation in relation to the application by RWE Renewables for a Development Consent Order (DCO) for the Awel y Mor offshore wind farm.

The IACC's comments specifically relate to matters concerning Seascape, Landscape and Visual impacts and socio - economic impacts including tourism.

1. Seascape, Landscape and Visual Impacts

Land Use Consultants (LUC) have been commissioned on behalf of the seven North Wales Local Planning Authorities to advise upon Seascape, Landscape and Visual impacts of the proposed development.

Snowdonia National Park Authority are the lead authority for the commission and will be submitting the 'LUC Awel y Mor Offshore Wind Farm Examination – Review of SLVIA Documents' (The 'LUC Review') to the Examining Authority on behalf of the seven North Wales Local Planning Authorities which includes the IACC. The IACC confirms that this submission forms its advice and position in relation to matters concerning seascape, landscape and visual impact and should be referred to by the appointed Planning Inspectors.

It should be noted that the LUC Review identifies a number of areas where there is a disagreement concerning the projects assessment of significant effects, and considers that the Authority areas of Anglesey, Gwynedd, Conwy, Snowdonia National Park and Denbighshire shall all experience adverse significant effects as a result of the offshore components of the proposed Awel y Mor windfarm development which cannot be further mitigated. These impacts are considered contrary to Planning Policy Wales (Edition 11, February 2021), Welsh National Marine Plan (November 2019) and Policy AMG1 of the Anglesey and Gwynedd Joint Local Development Plan.

The Awel y Mor ES assessment of Seascape, Landscape and Visual Effects (SLVIA) identifies significant effects on seascape, the designated landscape (Ynys Môn AONB) and visual receptors. The significant effects identified include harm to natural beauty, seascape as a setting to the AONB and three AONB special qualities.

Anglesey has a high value landscape with almost the entire coastline designated as an AONB. This valuable landscape and rich heritage sits within a rural context offering a sense of peace and tranquillity creating a unique and special sense of place.

In essence, within an area extending from Moelfre to Beaumaris, significant visual effects would be experienced to visual receptors such as users of the Wales Coast Path and settlements. Significant effects are predicted on landscape character within landscape character areas distinguished by their close relationship to the coast, much of it designated as AONB. Significant seascape effects would affect the AONB's setting, important to its designation on the coast.

Despite the applicant including design refinements to the proposal since the PEIR, which it is acknowledged have reduced the extent of the horizontal and vertical fields of view and perceptible changes to the visualisations, there has been no reduction in the number or range of predicted significant effects between the PEIR and ES.

It is not considered by IOACC that this proposal would conserve or enhance natural beauty and would detract from the purpose of the designation in the extensive area affected.

The significant effects on Seascapes predicted will affect the setting of the Ynys Môn AONB. It is not clear that effects on Seascapes have been minimised or that design mitigation is effective in avoiding significant adverse impacts.

The IACC has been party to discussions for a Landscape Conservation and Enhancement Contribution to be provided as part of the project. It is not considered that this will offset effects as predicted but presents an opportunity for landscape enhancements related to natural beauty, features and special qualities of the baseline landscape resource and compatible with Marine Plan policy. It would not make the predicted seascape, landscape and visual effects acceptable or less harmful, but is considered essential in consideration of the adverse effects predicted and likely, should the DCO be consented.

The IACC also confirms that LUC have also provided answers on behalf of the seven North Wales Local Authorities including the IACC to the first set of written questions relating to matters concerning Seascape, Landscape and Visual impact and that these should also be referred to by the appointed Planning Inspectors as the IACCs response to the first set of written questions.

2. Socio-Economic Impact

Future Wales acknowledges that large-scale renewable and low carbon energy schemes can generate direct social and economic benefit to local communities and that developers should explore how infrastructure improvements associated with a development be utilised by the host communities to bring additional, non-planning related benefits.

The IACC has previously provided comments in its relevant representation with respect to matters concerning socio-economic impacts. These predominately related to the Environmental Statement Report Volume 3, Chapter 3: Socio –economics which presents the

result of the assessment of the likely significant effects of the development with respect to matters concerning socio-economic including jobs and economic output.

- ***Skills and Employment***

As previously confirmed, the IACC considers that an outline Skills and Employment Strategy for the project should form part of the DCO application in order to identify the employment and training opportunities that will be available both locally and regionally, demonstrating and confirming the potential local benefits arising from the project and how they will be maximised, promoted and achieved.

The IACC notes that question 18.11 of the first set of written questions asks the applicant to explain their position with respect to the Skills and Employment Strategy. The IACC also notes that question 18.19 seeks confirmation as to whether the development will provide additional apprenticeships opportunities and training partnership with Coleg Llandrillo Menai and how will these be secured.

Since our last representation, the IACC is pleased to confirm that during its further engagement with all relevant Local Authorities within the region, that the applicant has been working on establishing an outline Skills and Employment Strategy and have been engaging with local stakeholders to explore opportunities within the local area for skills and employment and apprenticeship opportunities. This is very much welcomed. The IACC considers that an Outline Plan should be made available during the examination of the DCO application and then the provision made within the DCO requirement for the final detailed plan to be approved.

The IACC confirms that in terms of drafting this plan, a range of stakeholders needs to be involved including (but not limited to) the Welsh Government, North Wales Regional Skills Partnership, Ambition North Wales, M-Sparc, local education providers (Grwp Llandrillo Menai and Bangor University) and relevant Local Authorities (including Economic Development Teams).

- ***Supply Chain Opportunities***

IACC considers it essential that local companies are made aware early of the potential supply chain opportunities that will be made available during all stages of the project to allow them to plan accordingly and ensure that they can capitalise on the opportunities presented.

The IACC notes that question 18.26 of the first set of written questions asks the developer for confirmation as to whether there is a commitment to a proportion of contracts to be provided through local supplies and how this would be secured, monitored and delivered.

As previously confirmed, the IACC considers that an Outline Supply Chain Action Plan should be made available during the examination of the DCO and then the provision made within the DCO requirement for the final detailed plan to be approved. This is to ensure that discussions in relation to supply chain opportunities take place early to ensure that local and regional companies are ready to fully benefit from the opportunities presented by the project.

It is noted within Chapter 3 of the Environmental Statement (ES) that the jobs which are likely to be generated include port related activities, chartered and operation of non-specialist vessels and civil works related to installation of onshore infrastructure. The IACC would encourage the developer to consider these opportunities now and to identify how much of these skills are available locally and regionally in order to enable local people and companies to train or upskill to capitalise on these opportunities.

Given the potential for other major offshore wind projects to take place in North Wales such as the Mona Offshore Wind Farm, the IACC considers that there is potential for collaboration in order to ensure that the potential socio-economic benefits are maximised for the region.

- **Construction and Operational Ports**

The IACC acknowledges that details with respect to a construction/operational port that will facilitate the project will not form part of either the DCO or Marine Licence application.

The port selection has the potential to offer major socio-economic benefits for the North Wales region at all project phases.

It is welcomed that the Port of Holyhead is included on the long list of ports that have been identified as part of the EIA process. Other ports on Anglesey which could support some parts of the project delivery include Amlwch Port.

We are aware that the applicant has undertaken a port study in order to scope out project requirements against what is available and that they are in continuous discussions with Stena Line Ports. The IACC encourages this engagement to continue and is happy to contribute to any discussions as required.

Furthermore, the Council considers that suitable land located close to the port of Holyhead could be available to support the construction, operation and maintenance of the Awel y Mor project. The IACC is happy to discuss these opportunities further directly with the developer in order to understand their requirements as the project develops.

- **Tourism**

The Isle of Anglesey is an unique and popular destination for both visitors and local people. The Island offers peace, tranquillity, adventure and experiences along with fantastic views and vistas, a distinct Area of Outstanding Natural Beauty (AONB) covering practically the whole coastline of the Island, UNESCO World Geo Park, Beaumaris Castle – UNESCO sites and a multitude of other attractions. Tourism contributes to local prosperity and quality of life in Anglesey.

Anglesey's tourism industry currently attracts over 1.79million visitors annually with a total economic impact in excess of £362million. The sector also supports approximately 4000 jobs on the island and is now one of Anglesey's largest industries (Steam Final Trend Report for 2021, IOACC).


The Tourism & Recreation ES Chapter 4 concludes that the impacts on the tourism economy within North Wales would be 'low' or 'negligible'.

However, the SLVIA and LVIA notes that significant effects are identified for users of the Wales Coastal Path in sections C-F, covering Dulas Bay to Penmon Point. Effects on sections C, D and part of E are classed as moderate, while effects on the eastern part of section E and section F are moderate-major. This reflects the closer views of the proposal from around Penmon Point, and is consistent with the findings relating to the viewpoints.

This results in significant concerns regarding the potential indirect negative impacts that the landscape and visual impacts of the proposal may have on Anglesey and the wider region as a key tourist destination as well as associated socio-economic impacts.

The IACC requests that the likely impact confirmed in the SLVIA and LVIA are given further consideration within a socio-economic impact perspective including consideration for potential further mitigation and / or enhancement measures that can be designed into the project to minimise potential impacts.

Yours sincerely,



Christian Branch

Head of Service - Regulation and Economic Development Service